**Ein taith Wrth-hiliaeth yn Dylan’s Den Treorci, Rhondda Cynon Taf**

**Cyhoeddwyd gan Chloe Adams, Arweinydd Chwarae yn Dragon Tots a Clwb Gwyliau yn ogystal â'i rôl fel Hyrwyddwr Amrywiaeth**

Yn Dylan’s Den rydym yn ymdrechu i greu arferion Gwrth-Hiliol. Mae ein hadnoddau a'n harddangosfeydd yn adlewyrchu pob cenedl a phobl o gefndiroedd gwahanol. Mae gan ein cornel gartref lyfrau rysáit o wahanol ddiwylliannau a bwydydd, ac wrth ddysgu am wahanol ddathliadau byd-eang, rydym yn annog y plant i edrych ar y llyfrau i ddewis ryseitiau. Mae gan bob un o'n doliau liw croen gwahanol ac mae rhai ag anabledd corfforol. Rydym yn cael ymwelwyr o’r gymuned leol ac mae fy ngŵr, sy’n Weinidog o Dde Affrica, yn aml yn galw i mewn i ymweld, gan ddod â hwyl ac amrywiaeth, a sgwrsio â’r plant am ei ddiwylliant. Yn ddiweddar rydym wedi cael teulu o ffoaduriaid yn defnyddio ein darpariaeth. Roedd hyn yn wych oherwydd o’r blaen roedd y gymuned hon yn rhan o gymdeithas nad oedd wedi cael mynediad at ofal plant y tu allan i oriau ysgol. Gwnaethom yn siŵr bod y lleoliad yn adlewyrchu rhywfaint o’u diwylliant; fe wnaethom roi sgarffiau pen yn ein man gwisgo-lan a dod o hyd i ffyrdd o oresgyn y rhwystr iaith. Buom yn dathlu eu gwyliau crefyddol gyda nhw ac yn cefnogi’r teulu cyfan.

Rwyf bob amser yn herio unrhyw iaith wahaniaethol ac er nad yw pethau’n cael eu dweud allan o falais mae hynny’n digwydd fel arfer oherwydd diffyg addysg, rwy’n esbonio i’r person pam nad yw’r hyn y mae wedi’i ddweud yn iawn ac yn ei addysgu ar y termau cywir i hyrwyddo’n llwyr arferion gwrth-hiliol. Rwy'n teimlo'n gryf iawn ac yn angerddol iawn am hyn. Rwy’n teimlo’n freintiedig i fod yn Weithiwr Chwarae ac i gael y cyfle i lywio’r plant, gan eu hannog i herio hiliaeth a dathlu amrywiaeth. Mae'n dechrau gyda ni.

